

Y Digartref

Darllen: Luc 10:25–37

Mae o yno bob tro y byddaf yn mynd i siopa. Mae o ar ei gwreud yn y fynedfa, ef a'i gi yn disgwyl cardod gan bawb sy'n mynd i mewn i'r archfarchnad. Wrth ei ochr, mae ei hysbyseb mewn llythrennau bras yn Saesneg, 'Dim lle yn y llety'. Mae'r archfarchnad yn agored drwy'r nos, bob nos ond nos Sul. Dyma'i aelwyd, ei gartref, ond i ble mae'n mynd ar nos Sul? Pwy a wŷr! Ei unig gydymaith yw'r ci sydd bob amser yn cysgu pan fydda' i'n mynd heibio. Wrth ochr y ci, mae bocs plastig ac ynddo ychydig o arian. Arhosais i wyllo un noson. Am hanner awr go dda, chymerodd neb sylw ohono. Roedd yn rhan o frics a mortar yr adeilad. Mi gymerodd un eneth fach sylw o'r ci ond chymerodd y ci ddim sylw ohoni hi. A chymerodd neb sylw ohono fo. 'Dim lle yn y llety'.

Wedi i mi ei adael yno'n oerni'r nos, dechreuodd fy mhoeni. Pwy oedd o? Pam oedd o yno? Sut oedd wedi ffeindio'i ffordd i'r gornel honno? Cofiais am yr offeiriad a'r Lefiad yn Nameg y Samariad Trugarog yn mynd heibio o'r naill du. Cofiais am gwestiwn y cyfreithiwr, 'A phwy yw fy nghymydog?' (Luc 10:29). Roedd y cyfreithiwr yn ceisio rhoi terfynau i'w gariad. Roedd yn dadlau llawer, ond yn gwneud ychydig. Ni wyddai beth oedd gwir ystyr 'caru', ond parodd ei gwestiwn i Iesu ddefnyddio'i ddychymyg ac adrodd y ddameg. Soniodd am olygfa gyfarwydd y ffordd beryglus o Jerwsalem i Jericho. Dyma ffordd y byddai lladron yn llechu yn ei chilfachau, yn barod i ymosod a rheibio. Galwadau swydd a defosiwn fu'n gyfrifol i'r gwŷr crefyddol osgoi helpu'r creadur a 'syrthiodd i blith y lladron'. Mewn gwirionedd, dweud mae Iesu bod crefydd y ddau yn rhwystr iddyn nhw helpu'r truan. Dyma'r cymeriadau y disgwyliid iddyn nhw garu a chynorthwyo, ond er mawr syndod i'r cyfreithiwr mae yna dro yng nghynffon y ddameg. Mae'r cymeriad nesaf yn ymddangos heb ei ddisgwyl. Mae hwn o gefndir gwahanol. Mewn gwirionedd, un o'r gelynyddion ydi hwn. Estron ydi hwn, ond daeth heibio ac 'a gymerodd drugaredd arno'. Nid ei gyd-Iddewon na'r bobl a gynrychiolai grefydd Israel a

ymgeleddodd y truan; mynd heibio o'r ochr arall fu eu hanes hwy. Y Samariad hwn, felly, oedd ei gymydog: rhywun cwbl annisgwyl. Ac am y tro cyntaf mae'r cyfreithiwr yn gweld, 'Yr un a gymerodd drugaredd arno' (37).

O'i uniaethu ei hun â'r Samariad hwn fe allai'r cyfreithiwr yntau garu heb unrhyw ragfur na ffin. Ac felly, ateb Iesu iddo oedd, 'Dos, a gwna dithau yr un modd' (37). Nid dyletswydd oedd hi bellach, nid caru yn ôl gorchymyn a chyfyngiadau'r Gyfraith, ond caru ar yr un gwastad â'r Samariad. A'r hyn a wnaeth y Samariad oedd chwalu holl ffiniau crefydd a hil; a charu nid â'r rheswm, ond â'r galon. Mewn gair, yr hyn a wnaeth y Samariad oedd caru fel y mae Duw yn caru, heb ffin na therfyn.

Mae'r gŵr yn dal i eistedd wrth fynedfa'r archfarchnad, a'r ci wrth ei ochr. Mae'r hysbyseb wrth ei ochr, 'Dim lle yn y llety'. Ac mae'r tyrfaoedd yn dal i fynd heibio, a'r mwyafrif yn ei anwybyddu. Beth am iddo newid yr hysbyseb, 'A phwy yw fy nghymydog?'

Myfyrdod pellach:

Beth mae eich eglwys chi yn ei wneud i helpu'r digartref?

A oes gennych gydymdeimlad â'r Offeiriad a'r Lefiad?